

Croeso i'n Coedwig

Math o brosiect: Datblygiad Ynni Dŵr Pen Uchel

Lleoliad: Cwm Saebren

Nod: Lleihau tloedi tanwydd, dangos defnydd gwell o adnoddau naturiol a chreu refeniw at ddefnydd cymunedol.



Y cynllun

Mae Croeso i'n Coedwig wedi bod yn gweithio i ailgysylltu'r gymuned drwy ddiddordeb a rennir, ymgysylltu a'r defnydd o'r coetiroedd lleol. Roedd Croeso i'n Coedwig yn awyddus i archwilio'r cysylltiad hwn a dechreuodd reoli'r coetiroedd i ddangos sut y gallai amrywiaeth o brosiectau cysylltiedig helpu i gefnogi ac adeiladu'r gymuned. Roedd y datblygiad ynni dŵr 27kW yn deillio o'r gwaith hwn.

Nod y datblygiad ynni dŵr oedd annog ymgysylltu, dysgu a hyder yng ngallu a galluogrwydd y gymuned i ddarparu prosiect masnachol uchelgeisiol. Mae gan yr ardal leol hanes cyfoethog o ynni drwy gloddio glo, felly mae cysylltiad naturiol â chreu ynni a chynaliadwyedd. Cymerodd y datblygiad naw mlynedd o'i lunio i'w weithredu. Arweiniodd yr amserlen hirfaith hon at leihad i'r allbynnau disgwylidig, yn benodol yr elw ariannol disgwylidig i'r gymuned.

Partneriaid

Partneriaeth Croeso i'n Coedwig: partneriaeth o 45 o sefydliadau sy'n gweithio i gyflawni'r nodau cymunedol cyffredinol yn yr ardal leol. Roedd y bartneriaeth yn allweddol o ran gwneud penderfyniadau ac ychwanegu galluogrwydd er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei ddarparu.

Y Cymoedd Gwyrdd: Cynghorwyr ynni dŵr cymunedol arbenigol a roddodd gymorth technegol drwy gydol y cam datblygu.

Gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru: Rhoddodd gwasanaeth ynni adnewyddadwy cymunedol Llywodraeth Cymru gymorth drwy ei Swyddog Datblygu Lleol ac arian grant i dalu am waith cyfreithiol ac astudiaethau technegol.

Cyfoeth Naturiol Cymru: perchenogion tir a chorff statudol sy'n darparu trwyddedau ar gyfer tynnu dŵr.

Cymoedd Gwyrdd Llangatwg: sefydlwyd partneriaeth â Croeso i'n Coedwig i roi cymorth, arbenigedd a chyllid cyfalaf i'r prosiect.

Croeso i'n Coedwig Cyfyngedig: y cyfrwng pwrpasol a sefydlwyd i ddarparu'r datblygiad ynni dŵr. Cyngor a chymorth wedi'u rhoi gan y bartneriaeth.

Beth oedd y canlyniad?

Ar ôl naw mlynedd o ddatblygu rhediad 27kW o'r afon, mae datblygiad ynni dŵr pen uchel wedi'i osod yng Nghwm Saebren, Treherbert.

Ariannodd y prosiect y cyfalaf drwy bartneriaeth â Cymoedd Gwyrdd Llangatwg. Rhagwelir y bydd y prosiect yn creu 118,870 kWh y flwyddyn.

Beth a ddysgwyd?

Cynllun ar gyfer natur amrywiol amser personél a'r capasiti angenrheidiol i sicrhau caniatâd a chyllid i adeiladu

Heb gyswllt dynodedig i reoli'r cam datblygu, ni fyddai'r prosiect wedi llwyddo i gael y caniatâd angenrheidiol i adeiladu. Roedd hyd y cyfnod pan oedd problemau'n codi, naw mlynedd o'r syniad cychwynnol i'w adeiladu, yn golygu ei bod yn anodd rheoli'r cam hwn. Amrywiodd y llwyth gwaith rhwng cyfnodau o weithgarwch â ffocws i ambell fis heb lawer o ofynion gwaith, os o gwbl, gan fod y pethau i'w cyflawni'n cael eu gwneud gan ymgynghorydd cyflogedig. Bu penodi aelod pwrpasol o staff yn allweddol er mwyn goresgyn yr ystod o broblemau a gododd yn ystod y cam datblygu. Helpodd i ddiogelu'r gwirfoddolwyr rhag y rhwystredigaethau a'r pwysau diangen a gododd yn ystod y cam hwn, gan eu helpu i gadw eu golwg wrthrychol ar gyfer y prosiect. Yn Croeso i'n Coedwig, mae creu ynni'n rhan o weledigaeth ehangach y sefydliad. Heb y cysylltiad hwn, byddai wedi bod yn anodd penodi'r adnodd angenrheidiol i ddarparu'r prosiect. Roedd y cymorth a roddwyd gan y swyddogion datblygu yn y cam hwn yn allweddol er mwyn llwyddo i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a gododd.

Magu hyder sefydliadau cymunedol i gyflawni

Roedd llawer o'r amser a dreulwyd ar y cam datblygu er mwyn ymgysylltu â chyrff statudol wrth roi'r caniatâd angenrheidiol i'r prosiect gael ei adeiladu. Ar y dechrau, roedd diffyg hyder gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt) y gallem gyflawni prosiect fel hwn, ac y gallai gadw gwerth masnachol y prosiect os byddai'n cael ei gyflawni gan sefydliad cymunedol. O ganlyniad, cymerodd Cyfoeth Naturiol Cymru gamau gofalus gyda'r datblygiad a bu'n rhaid i ni reoli disgwyliadau a phrofi y gallai sefydliad cymunedol gyflawni prosiect uchelgeisiol â llai o gapasiti na chwmni rhyngwladol mwy. Ychwanegodd hyn at y cymhlethdod ac ymestyn yr amserlen i gyflawni'r prosiect ond, drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn teimlo ein bod wedi dangos bod datblygiadau adnewyddadwy mentrus yn bosibl.

Mwynhau'r broses adeiladu a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol eraill a chontractwyr.

Er iddi gymryd naw mlynedd i gwblhau'r cam datblygu, roedd y gwaith adeiladu'n fyr mewn gwirionedd a chafodd ei gwblhau mewn ychydig fisoedd. Roedd y rhan honno o'r prosiect yn bleserus ac rydym yn argymhell cymryd rhan yn y penderfyniadau o ddydd i ddydd gymaint â phosibl gan mai dyna pryd mae'r dysgu'n digwydd mewn gwirionedd. Roeddem yn ffodus i gael ymgynghorydd cydymdeimladol, a drefnodd i ni gymryd rhan yn ystod y gwaith adeiladu. Gwnaethom weithio mewn partneriaeth â Cymoedd Gwyrdd Llangatwg er mwyn ariannu'r gwaith adeiladu a daeth hyn â chyfoeth o sgiliau ac arbenigedd yn ei sgil a oedd o fudd i ni. Drwy gymryd rhan yn ystod y gwaith adeiladu, rydym wedi magu hyder i gynllunio'r gwaith o ehangu ein portffolio o ddatblygiadau ynni dŵr. Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio'r gweithlu lleol, yr ydym yn disgwyl y bydd yn lleihau costau ac yn ein helpu i ddatblygu sgiliau cymunedol a chadw cyflogaeth yn lleol. Rydym wedi datblygu sgiliau a magu hyder o ganlyniad i'r partneriaethau a sefydlwyd drwy'r prosiect hwn ac argymhell y dylai unrhyw gymuned sydd am ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ddefnyddio'r profiad a gafwyd yng Nghymru a siarad â sefydliadau eraill sydd wedi cyflawni hyn.

Cymorth gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru

Rhoddodd gwasanaeth Ynni Lleol Llywodraeth Cymru yr hyder i ni ddatblygu'r prosiect a'n helpu i oresgyn unrhyw heriau a wynebwyd wrth wneud hynny. Rhoddodd y Swyddogion Datblygu Ynni Lleol gyngor gwerthfawr a rhannu'r hyn a ddysgwyd o brosiectau ynni cymunedol eraill.

Ynni Lleol

Mae'r Gwasanaeth Ynni Lleol yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i bobl leol drwy gymorth swyddogion datblygu, grantiau a benthyciadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Ynni Lleol.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Paul Smith

Rheolwr y Rhaglen Ynni Lleol

e: paul.smith@est.org.uk



Ynni | **Local**
Lleol | **Energy**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government